GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 24/15

## 30 September 2024

**For action by:**
Directors of Estates/Facilities, NHS Health Boards and Trusts

**For information only:**
Chief Executives, NHS Health Boards and Trusts
Directors of Planning, NHS Health Boards and Trusts
Directors of Finance, NHS Health Boards and Trusts

Copy to: Health, Social Care and Early Years Group, Welsh Government.

Dear Colleague,

## Estates & Facilities Advisory Board Investment 2023/24 to 2024/25 (EFAB II)

### Purpose

As part of the work to inform the NHS Wales Capital Prioritisation process, we have been asked by Welsh Government colleagues to seek feedback on the programme of investment that is referred to as ‘EFAB II.’

This feedback will be used to support the case for a future programme of investment and evidence how this represents a good use of capital funding. We are also keen to obtain feedback on how such investment initiatives may be improved based on the experiences of colleagues in Health Boards and Trusts. It is hoped this work will support any recommendations on allocations, timeliness of awards, monitoring and the impact assessment should the programme be extended.

### Benefits

The Welsh Government routinely receives positive feedback on the impact of ‘EFAB II’ at Capital Review Meetings (CRMs). However, other than cost management progress reports, we do not receive any data on a routine basis linked to impact. We visited a number of sites during 2023, and the positive impact of the investment was apparent, ranging from improvements to the Emergency Department environment through to upgrades to air handling units where plant failure may have had a detrimental effect on patient care services. These types of impacts need to be identified and recorded effectively.

In order for us to improve the process please therefore provide responses to the following questions where applicable:

1. What essential works were you only able to fund as a result of your EFAB II allocation?
2. What was the impact and benefits of this investment on patient care services, directly and indirectly?
3. How many departments/services were positively affected by the allocations?
4. What risks were reduced or otherwise mitigated as a result of this investment?
5. What other improvements, if any, were made possible as a result of this investment?
6. How has the investment reduced backlog maintenance (please provide any backup information to support your answer)?

**Lessons learned**

1. Are there any improvements that we could make to the process?
2. Was there anything better with EFAB II compared with EFAB I?
3. Did the categories reflect the highest priorities?

Please can organisations submit their responses to Ray Selby (ray.selby@wales.nhs.uk) by Thursday 31st October 2024. This information will then be used to support any recommendations linked to the output from the Capital Prioritisation exercise.

Yours sincerely



**Stuart Douglas BSc (Hons), PGDip, MRICS, MAPM**

**Director Specialist Estates Services**

**NWSSP Specialist Estates Services, 4th Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 24/15

## 30 Medi 2024

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Cyfarwyddwyr Ystadau/Cyfleusterau, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**Er gwybodaeth yn unig:**
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwyr Cynllunio, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwr Cyllid, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Copi at: Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru.

Annwyl Gydweithiwr,

## Buddsoddiad y Bwrdd Cynghori Ystadau a Chyfleusterau 2023/24 i 2024/25 (EFAB II)

### Diben

Fel rhan o'r gwaith i lywio proses Blaenoriaethu Cyfalaf GIG Cymru, mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi gofyn inni ofyn am adborth ar y rhaglen fuddsoddi y cyfeirir ati fel 'EFAB II'.

Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r achos dros raglen fuddsoddi yn y dyfodol a dangos sut mae hyn yn cynrychioli defnydd da o gyllid cyfalaf. Rydym hefyd yn awyddus i gael adborth ar sut y gellir gwella mentrau buddsoddi o'r fath yn seiliedig ar brofiadau cydweithwyr mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau. Y gobaith yw y bydd y gwaith hwn yn cefnogi unrhyw argymhellion ar ddyraniadau, amseroldeb dyfarniadau, monitro a'r asesiad o'r effaith pe bai'r rhaglen yn cael ei hymestyn.

### Buddion

Mae Llywodraeth Cymru yn cael adborth cadarnhaol fel mater o drefn ar effaith 'EFAB II' mewn Cyfarfodydd Adolygu Cyfalaf. Fodd bynnag, ar wahân i adroddiadau cynnydd rheoli costau, nid ydym yn cael unrhyw ddata sy'n gysylltiedig ag effaith fel mater o drefn. Gwnaethom ymweld â nifer o safleoedd yn ystod 2023, ac roedd effaith gadarnhaol y buddsoddiad yn amlwg, yn amrywio o welliannau i amgylchedd yr Adran Achosion Brys i uwchraddio unedau trin aer lle gallai methiant peiriannau fod wedi cael effaith andwyol ar wasanaethau gofal cleifion. Mae angen nodi'r mathau hyn o effeithiau a'u cofnodi'n effeithiol.

Er mwyn i ni allu gwella'r broses, a fyddech cystal â darparu ymatebion i'r cwestiynau canlynol lle bo'n berthnasol:


1. Pa waith hanfodol na allech ond ei ariannu o ganlyniad i'ch dyraniad EFAB II?
2. Beth oedd effaith a manteision y buddsoddiad hwn ar wasanaethau gofal cleifion, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol?
3. Faint o adrannau/gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt yn gadarnhaol gan y dyraniadau?
4. Pa risgiau a gafodd eu lleihau neu eu lliniaru o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn?
5. Pa welliannau eraill, os o gwbl, a wnaed yn bosibl o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn?
6. Sut mae'r buddsoddiad wedi lleihau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni (rhowch unrhyw wybodaeth wrth gefn i gefnogi'ch ateb)?

**Gwersi a ddysgwyd**

1. A oes unrhyw welliannau y gallem eu gwneud i'r broses?
2. A oedd unrhyw beth gwell o ran EFAB II o'i gymharu ag EFAB I?
3. A oedd y categorïau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau uchaf?

A all sefydliadau gyflwyno eu hymatebion i Ray Selby (ray.selby@wales.nhs.uk) erbyn dydd Iau 31 Hydref 2024. Yna bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi unrhyw argymhellion sy'n gysylltiedig â'r allbwn o'r ymarfer Blaenoriaethu Cyfalaf.

Yr eiddoch yn gywir



**Stuart Douglas BSc (Anrh), PGDip, MRICS, MAPM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Llawr 4, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UB**